Codi'r oedran ar gyfer gwerthu tybaco

Gwybodaeth i fanwerthwyr

O **ddydd Llun, 1af Hydref 2007**, bydd y gyfraith o ran gwerthu tybaco yn newid. Bydd yn anghyfreithlon i fanwerthwyr werthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un o dan 18 oed (o gymharu ag 16 oed ar hyn o bryd) yng Nghymru a Lloegr. Disgwylir i'r newid yn y gyfraith ddod i rym yn yr Alban hefyd o'r un dyddiad.

Pam bod y ddeddfwriaeth yn cael ei newid?

Dechreuodd y rhan fwyaf o oedolion sy'n gaeth i nicotin ysmygu yn eu harddegau. Bwriad y newid hwn yn y gyfraith yw helpu i atal plant a phobl ifanc rhag dechrau yn y lle cyntaf, a thrwy hynny osgoi peryglon iechyd difrifol ysmygu.

Beth mae hyn yn ei olygu i fanwerthwyr?

Yr unig newid i fanwerthwyr mewn gwirionedd yw, o 1af Hydref, bydd angen iddynt sicrhau bod eu cwsmeriaid yn 18 oed neu'n hŷn cyn gwerthu unrhyw gynhyrchion tybaco iddynt, yn hytrach nag 16 oed neu'n hŷn, yn unol â'r gyfraith bresennol.

Mae cynhyrchion tybaco yn cynnwys sigaréts, sigars, tybaco rholio rhydd a phapurau rholio, ac mae'r gyfraith yn gymwys i'w gwerthu dros y cownter a thrwy beiriant.

Fel ag o'r blaen, bydd angen i fanwerthwyr arddangos arwydd yn nodi'n glir y cyfyngiad oedran ar gynhyrchion tybaco. Mae'r gofynion fel ag yr oeddent ymhob ffordd ar wahân i'r ffaith y bydd yr oedran yn newid o 16 oed i 18 oed. Mae'n rhaid i'r arwydd ddweud: "Mae'n anghyfreithlon gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un o dan 18 oed". Mae'n rhaid i'r hysbysiad ar beiriant ddweud: "Dim ond pobl sy'n 18 oed neu'n hŷn a gaiff ddefnyddio'r peiriant hwn".

Beth yw'r cosbau am ddiffyg cydymffurfio?

Bydd y cosbau am werthu cynhyrchion tybaco i rywun o dan yr oedran cyfreithlon fel ag y maent ar hyn o bryd o 1af Hydref. Gall gwerthu tybaco i unrhyw un dan oedran arwain at ddirwy o hyd at £2,500. Gall methu ag arddangos yr hysbysiad statudol arwain at ddirwy o hyd at £1,000. Mae hyn yn gymwys i werthu cynhyrchion tybaco dros y cownter a thrwy beiriant.

Er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn 18 oed neu'n hŷn, cynghorir staff manwerthu i ofyn am gael gweld cerdyn profi oedran achrededig neu fath arall o brawf adnabod dilys gan unrhyw un sy'n edrych dan oedran bob amser.

Swyddogion Safonau Masnach fydd yn gyfrifol am orfodi'r gyfraith, fel y gwnânt ar hyn o bryd. Byddant yn cydweithio â manwerthwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer y newid ac i sicrhau

cydymffurfiaeth. Dim ond drwy gynnal profion prynu a gaiff eu goruchwylio'n ofalus gan ddefnyddio gwirfoddolwyr yn eu harddegau y gellir profi y cyflawnwyd trosedd.

[Proof of age box]

Profi oedran

Ymhlith y dogfennau profi oedran dilys mae:

- *Pasbort*
- *Trwydded yrru â llun*
- *Citizencard*
- *Cerdyn 'Prove It' Portman*
- *Cerdyn 'Validate'*

Dylech chwilio am logo hologram 'PASS' ar bob cerdyn profi oedran. Am ragor o wybodaeth ewch i:
www.pass-scheme.org.uk

Pa wybodaeth a chymorth sydd ar gael?

Mae'r Adran Iechyd yn cynnal ymgyrch gyfathrebu ac yn darparu nifer o adnoddau i fanwerthwyr fel rhan ohoni:

- Gwybodaeth gynnar i'r busnesau hynny sydd â niferoedd uchel o gwsmeriaid 16 a 17 oed

- 'Pecyn cymorth' o wybodaeth i bob manwerthwr, gan gynnwys arwyddion (ar gael ar ddiwedd mis Awst)

- Gwefan benodol, **tobaccoagechange.co.uk**, sy'n cynnwys gwybodaeth am y ddeddfwriaeth a'r ymgyrch gyfathrebu, yn ogystal â chyngor defnyddiol ar baratoi ar gyfer y newid, i'w wneud mor syml â phosibl i fanwerthwyr a'u staff.

Bwriedir i'r ymgyrch gyfathrebu hefyd godi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc yn eu harddegau o'r newid yn y gyfraith, fel bod pawb yn cael eu rhybuddio ohono cyn iddo ddod i rym ar 1af Hydref. Mae'r ymgyrch yn cynnwys hysbysebion, cyswllt â'r cyfryngau, ymgyrch ddigidol a gweithio gyda mudiadau ieuenctid.

Am ragor o wybodaeth am y newid mewn deddfwriaeth neu'r ymgyrch gyfathrebu, neu i gael gafael ar adnoddau ychwanegol, ewch i **www.tobaccoagechange.co.uk** neu ffoniwch **020 7492 0980**.